# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Meirick Davies, Barry Mellor, Pete Prendergast, David Simmons, Cefyn Williams (Cadeirydd) a Huw Williams (Is-Gadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (TB) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a SJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving a Merfyn Parry

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016.

**Materion yn codi -**

**Tudalen 9, Eitem 3 Materion Brys: Tacsis hygyrch i gadeiriau olwyn –** Diweddarodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu’r aelodau ar y mater a godwyd yn y cyfarfod diwethaf, ynghylch argaeledd tacsis sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn, sy'n gweithredu yn ardal y Rhyl.

Ers cael gwared ar y cyfyngiad ar nifer y trwyddedau tacsis, bu cynnydd yn nifer y cerbydau sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn a’r galw amdanynt. Er mai ychydig o alw heb ei ddiwallu oedd yna am gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn yn gyffredinol, roedd argaeledd yn gyfyngedig ar yr adegau roedd y cerbydau hynny’n cael eu defnyddio i wneud contractau cludiant ysgol. Yn dilyn ymchwiliad i'r achos y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod diwethaf, eglurwyd nad oedd y gweithredwr wedi gwrthod yr archeb, ond wedi methu â darparu cerbyd hygyrch i gadair olwyn pan ofynnwyd amdano am ei fod eisoes yn cael ei ddefnyddio, a bod y cwsmer wedi cael cynnig archeb yn nes ymlaen. Roedd swyddogion wedi rhoi manylion i'r unigolyn dan sylw ynghylch darparwyr gwasanaeth eraill a fyddai ar gael yn fwy rhwydd, ar wefan y Cyngor.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch a oedd cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn digonol yn weithredol, ac a fyddai unrhyw rinwedd mewn rheoleiddio’r niferoedd hynny er mwyn sicrhau bod cyfran fwy o gerbydau trwyddedig yn darparu’r gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, derbyniwyd y byddai'n anodd mesur a oedd unrhyw alw heb ei ddiwallu yn yr ardal, yn enwedig o ystyried mai dim ond un gŵyn oedd wedi dod i law yn y cyswllt hwnnw, ac ni allai cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn gael eu cyfyngu i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn unig. O ganlyniad, cytunwyd bod swyddogion yn ymchwilio i'r prosesau archebu a ddefnyddir gan wasanaethau tacsis sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn, ac a oedd cynlluniau wrth gefn priodol ar waith i ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016 fel cofnod cywir, a*

*(b) bod swyddogion yn ymchwilio i'r prosesau archebu a ddefnyddir gan wasanaethau tacsi hygyrch i gadeiriau olwyn yn yr ardal ac a oedd cynlluniau wrth gefn priodol ar waith i ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 5 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT

[Dygwyd yr eitem hon yn ei blaen o fewn trefn y rhaglen gyda chydsyniad y Cadeirydd]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais a ddaeth i law am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;

(ii) nid oedd swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais, gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd ar gyfer trwyddedu’n cydymffurfio â'r fanyleb, fel y manylir yn Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor, o ystyried bod y cerbyd â gyriant llaw chwith a bod polisi’r Cyngor yn datgan bod yn rhad i bob cerbyd fod yn yriant llaw dde oni bai ei fod wedi’i eithrio’n benodol gan y Cyngor;

(iii) estyn gwahoddiad i’r Gyrrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i gyflwyno’r cerbyd i'r aelodau ei archwilio.

Roedd yr Ymgeisydd wedi methu dod i'r cyfarfod ond roedd wedi penodi cynrychiolydd a gadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r (NJ) adroddiad a gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried a fyddai'n briodol gwyro oddi wrth bolisi'r Cyngor ynglŷn â manylebau cerbydau, er mwyn caniatáu'r cais fel y gwnaed cais amdano. Os oedd aelodau yn dymuno gwyro oddi wrth bolisi, roedd amodau ychwanegol wedi'u cymeradwyo yn y polisi presennol i gynorthwyo gyda rheoleiddio a gorfodi, a oedd yn amgaeedig fel atodiad i'r adroddiad.

Cyflwynodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd lythyr gan yr Ymgeisydd a dogfennau perthnasol i gefnogi'r cais (a gylchredwyd yn y cyfarfod). Darparwyd manylion busnes hurio preifat yr Ymgeisydd a'r rhesymeg y tu ôl i'r cais er mwyn uwchraddio'r cerbyd trwyddedig presennol, a oedd wedi cael yr holl gymeradwyaethau ac awdurdodiadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Eglurwyd y byddai'r cerbyd newydd yn union yr un fath â'r cerbyd presennol, sydd hefyd yn yriant llaw chwith. Eglurodd y Swyddog Trwyddedu na allai'r swyddogion ganiatáu'r cais oherwydd ei fod yn gwyro oddi wrth y polisi presennol, ond ceisiwyd cymeradwyaeth i roi pwerau dirprwyedig i swyddogion ar gyfer ymdrin â cheisiadau o'r fath yn y dyfodol, fel rhan o adolygiad polisi trwyddedu cerbydau hurio preifat. Er mai oedran presennol polisi oedd 5 mlynedd i gerbyd newydd ymiuno â'r fflyd, roedd y cerbyd mewn cyflwr eithriadol yn yr achos hwn. Roedd y cyfeiriad yn y polisi presennol at gerbydau gyriant llaw dde yn hanesyddol ac roedd y sail ar gyfer y dyfarniad hwnnw'n aneglur.

Wrth wneud datganiad terfynol, ailadroddodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod y cerbyd mewn cyflwr perffaith ac wedi pasio'r holl brofion diogelwch angenrheidiol ac yn darparu cerbyd newydd, sydd union yr un peth â'r cerbyd presennol ar y fflyd.

Yn y fan hon, cafodd y pwyllgor egwyl i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y cais ar gyfer Trwydded Cerbyd Hurio Preifat yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau ychwanegol a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y cerbyd mewn cyflwr eithriadol ac yn briodol ar gyfer trwyddedu, gan ei fod yn union yr un math â'r cerbyd presennol, ac wedi pasio'r holl brofion cydymffurfiaeth angenrheidiol. Cafodd amodau ychwanegol eu gosod er mwyn cynorthwyo wrth reoleiddio a gorfodi math y cerbyd.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i gynrychiolydd yr Ymgeisydd.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**6 POLISI ARFAETHEDIG CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn ceisio cymeradwyaeth y Polisi Arfaethedig Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, manylebau ac amodau i'w mabwysiadu, gan fod yn weithredol o 1 Ebrill 2017.

Yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad cychwynnol ar y polisi arfaethedig, roedd aelodau wedi cymeradwyo ail ymgynghoriad ar bolisi diwygiedig i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r drafft cyntaf, ac i roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau pellach yn y fersiwn terfynol. Wrth gyflwyno'r fersiwn terfynol, roedd swyddogion wedi diwygio'r polisi i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y bo'n briodol, a hefyd wedi ymgorffori rhai meysydd ychwanegol a oedd wedi ymddangos mewn polisïau eraill, am eglurder a hwylustod. Roedd Is-ddeddfau Enghreifftiol yr Adran Drafnidiaeth a gymeradwywyd yn flaenorol gan aelodau yn aros am gadarnhad gan yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn eu gweithredu'n derfynol, a byddai'n eistedd ochr yn ochr â'r Polisi Hurio Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Trafododd y pwyllgor y polisi drafft terfynol gyda swyddogion a eglurodd fod -

- oedran hynaf y cerbydau wedi bod yn destun llawer o drafod yn y gorffennol ac roedd y drafft terfynol yn dod â cherbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn unol â'r cerbydau o dan gais newydd, yn uchafswm o 5 mlwydd oed, a cheisiadau adnewyddu wedi'u caniatáu ar gyfer cerbydau hyd at 12 oed, lle mae'n rhaid i'r cerbyd gael ei ddisodli gydag un nad ydyw'n fwy na 5 oed
- o ran gweithrediad y terfyn oedran newydd, byddai bob cerbyd presennol â hawliau taid am 5 mlynedd a fyddai'n berthnasol i gerbydau a oedd â thrwydded barhaus – byddai cerbydau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu cyn dyddiad dod i ben y drwydded bresennol yn colli'r hawliau hynny ac yn cael ei drin fel cerbyd newydd
- roedd y gyfundrefn brofi ar gyfer cerbydau trwyddedig yn cynnwys dau brawf cydymffurfiad y flwyddyn - er cysondeb, rhaid i gerbydau newydd i'r fflyd gael prawf cychwynnol gan Wasanaethau Fflyd y Cyngor ac o leiaf un o'r profion cydymffurfio fesul blwyddyn gan y Gwasanaethau Fflyd, pan fydd y cerbyd yn cyrraedd 5 mlwydd oed.

Teimlai'r Aelodau fod y newidiadau yn creu cysondeb ar draws cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, a byddai'n arwain at safonau cerbydau gwell wrth roi digon o amser i'r cerbydau hŷn gael eu disodli a'u huwchraddio hefyd. Nodwyd hefyd y bu cefnogaeth gyffredinol i gyflwyno terfyn oedran ar gyfer cerbydau gan y fasnach yn ystod y broses ymgynghori. Er budd yr aelodau newydd, eglurwyd bod y polisi drafft cychwynnol wedi tynnu sylw at y newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Trwyddedu yn -*

*(a) mabwysiadu Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, y Fanyleb ac Amodau yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2017, ac*

*(b) awdurdodi Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, i wneud mân ddiwygiadau gweinyddol i'r*

*polisi lle bo angen, yn dilyn adolygiad bob tair blynedd neu'n gynt os yn briodol.*

## 7 DIWEDDARIAD AR Y WEITHDREFN PWYNTIAU COSB

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Gwarchod y Cyhoedd (IM) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn rhoi diweddariad blynyddol ar y Weithdrefn Pwyntiau Cosb ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2015 hyd at 30 Medi 2016, yn ôl cais blaenorol y pwyllgor. Roedd dadansoddiad o'r pwyntiau a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod wedi eu hatodi i'r adroddiad.

Roedd y Weithdrefn Pwyntiau Cosb yn manylu ar sut yr ymdriniodd y Cyngor â mân achosion o dorri amodau mewn perthynas â thrwyddedu tacsis, ac wedi cael cymeradwyaeth y pwyllgor ym mis Medi 2014 ac wedi'i ddiweddaru ymhellach ym Mawrth 2016. Mae cyhoeddi pwyntiau wedi bod yn weithgar ers mis Ionawr 2015 ac roedd y driniaeth yn ddarostyngedig i adolygiad bob tair blynedd.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y pwyntiau canlynol o ddiddordeb -

- pwyntiau wedi'u dyfarnu i 15 o yrwyr a oedd yn cyfateb i 3% o yrwyr trwyddedig
- nid oedd un gyrrwr wedi bod yn rhan o sawl digwyddiad ac wedi eu dyfarnu â phwyntiau o ganlyniad i hynny
- dyfarnwyd yr uchafswm o bwyntiau mewn digwyddiad unigol i 4 gyrrwr
- roedd rhai gyrwyr wedi ymddangos o flaen y Pwyllgor Trwyddedu
- 3 digwyddiad yn cynnwys cyflwyno cerbyd am brawf mewn cyflwr anniogel - roedd hyn wedi cynyddu o ddau ddigwyddiad y llynedd
- diffyg hysbysu am gollfarnau wedi treblu yn ogystal â cherbydau sy'n fudr tu mewn
- digwyddiadau yn ymwneud â namau ar deiars wedi gostwng o 80% ac ysmygu mewn cerbydau wedi haneru o flwyddyn diwethaf

Nodwyd y tueddiadau mewn meysydd penodol o'r cynllun a chytunodd y pwyllgor gydag awgrym y Swyddogion y dylid parhau â negeseuon cynghorol drwy'r Newyddlenni ac erthyglau yn y wasg, ynghyd â gwiriadau cydymffurfio min ffordd rheolaidd i ostwng diffyg cydymffurfio. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun gan aelodau a theimlai'r Cadeirydd ei bod yn werth chweil ac yn arf defnyddiol wrth nodi meysydd o bryder a dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol. Atebodd y swyddogion gwestiynau ac ymhelaethwyd ar arolygiadau a gynhaliwyd gan swyddogion gorfodi a gweithrediadau ar y cyd gyda'r Heddlu a'r Gwasanaethau Fflyd. O ran ymddygiad teithwyr, cynghorwyd aelodau mai cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod teithwyr yn ymddwyn mewn modd rhesymol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y wybodaeth a ddarperir ar y dadansoddiad o'r pwyntiau a gyhoeddwyd fel y manylwyd yn yr adroddiad yn cael ei chydnabod.*

## 8 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn diweddaru aelodau ar

gynnydd adolygu’r polisi masnachu ar y stryd cyfredol, a chyflwyno’r drafft diweddaraf er ystyriaeth aelodau.

Roedd Aelodau wedi ystyried y polisi drafft cychwynnol yn y cyfarfod diwethaf fel rhan o'r broses adolygu ac wedi cytuno i gynnwys system caniatâd "bloc dros dro" neu ganiatâd "digwyddiad arbennig" i'w defnyddio mewn digwyddiadau cymunedol, a thynnwyd sylw at yr angen i adolygu rhinweddau'r system gyfredol o strydoedd gwaharddedig a’r strydoedd â chaniatâd. Fel rhan o'r broses adolygu, roedd swyddogion yn bwriadu ymgynghori ymhellach gydag adrannau perthnasol eraill y Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned, ac adrannau perthnasol eraill o’r Cyngor ar y materion hynny, cyn cwblhau polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd swyddogion hefyd yn bwriadu adolygu graddfa’r ffioedd presennol ar gyfer masnachu ar y stryd, a fyddai'n cynnwys lle i hepgor ffioedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol bach neu achosion elusennol fel y bo'n briodol.

Nododd yr Aelodau'r newidiadau i'r drafft ers ei ystyried yn y cyfarfod diwethaf a chroesawyd cynigion i ymgynghori â Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned, fel rhan o adolygiad a datblygiad y polisi. Mewn ymateb i gwestiynau, fe wnaeth aelodau -

- ymhelaethu ar y system bresennol o strydoedd gwaharddedig a’r rhai â chaniatâd, a fyddai'n destun adolygiad, gan gymryd i ystyriaeth y gwahanol ardaloedd o fewn y sir, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y cynllun
- eglurwyd, er bod yna ganllawiau a rheoliadau sy'n llywodraethu masnachu ar y stryd, y bwriad oedd datblygu polisi symlach newydd a oedd yn hawdd i'w ddarllen, gyda phroses ymgeisio symlach, gan gynnwys caniatâd blynyddol, a oedd yn gefnogol i ddigwyddiadau cymunedol ac elusennol hefyd
- amlygwyd bod nifer o faterion wedi cael eu codi ar gyfer ymgynghori pellach, gan gynnwys amod i wahardd masnach o fewn 100 metr i derfyn unrhyw ysgol / coleg rhwng oriau penodol, heb wahoddiad ffurfiol gan y sefydliad
- cynghorwyd nad oedd yn fwriad y polisi i gwmpasu marchnadoedd rheoledig, a oedd yn destun proses ar wahân, er gellid ystyried marchnadoedd arbenigol untro sy’n cael eu dosbarthu fel digwyddiadau arbennig o dan y polisi masnachu ar y stryd newydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi a bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i barhau â'r gwaith ar y Polisi Masnachu ar y Stryd drafft drwy weithio gyda Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned ac adrannau perthnasol o fewn y Cyngor i sefydlu eu barn, cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.*

## 9 ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIAD RHYW

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol), ynghylch cynigion i lunio Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu ar 4 Mawrth 2015 wedi cytuno y dylid cymryd camau i fabwysiadu darpariaethau Adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (a roddodd y pŵer i awdurdodau lleol reoleiddio clybiau dawnsio glin fel sefydliadau rhyw) ac adolygu a diwygio Polisi Sefydliad Rhyw presennol y Cyngor fel y bo'n briodol. Er nad oes safleoedd o'r math hwn yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, byddai

mabwysiadu’r pwerau hyn yn gweithredu fel mesur ataliol rhag unrhyw safleoedd o’r fath yn y dyfodol. O ystyried y llwythi gwaith cyfredol, ystyriodd swyddogion y byddent mewn sefyllfa i gyflwyno polisi drafft i aelodau yn 2017/18 ac yn y cyfamser, byddai swyddogion yn parhau i gyfeirio unrhyw gais yn y dyfodol at y pwyllgor o dan weithdrefnau presennol.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a’i nodi a bod y terfynau amser ynddo ynglŷn â chreu Polisi Sefydliad Rhyw drafft diwygiedig yn cael eu cymeradwyo.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2017

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â rhaglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2017.

Roedd Swyddogion yn cynnig cyflwyno rhaglen waith wedi’i diweddaru i bob cyfarfod pwyllgor, a chynnal rhaglen dreigl deuddeg mis, a fyddai'n galluogi swyddogion i ymateb i bwysau sy'n dod i'r amlwg neu newidiadau arfaethedig wrth iddynt godi, heb yr angen i wneud newidiadau sylweddol i'r rhaglen.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn yr atodiad i’r adroddiad, a*

*(b) bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i gyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol ar dreigl 12 mis i'w diweddaru ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 a.m.